COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

# Prentis Marchnata Digidol – Lefel 3

## Manyleb swydd, swydd ddisgrifiad a manyleb person

Mai 2026

## Manyleb Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Prentis Marchnata Digidol– Lefel 3 |
| **Cyflog:** | Cyflog Byw Gwirioneddol, sef £13.45 yr awr (£19,583 y flwyddyn pro rata) |
| **Lleoliad:** | Caerfyrddin neu Caerdydd gan gynnwys cynllun gweithio hybrid |
| **Statws Cyflogaeth:** | Cytundeb cyfnod penodol o 18 mis am 4 diwrnod yr wythnos (28 awr) |
| **Atebol i:** | Swyddog Cyfathrebu |
| **Staff â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt:** | 0 |
| **Dyddiad cau ceisiadau:** | 12:00 ar 22 Mehefin 2026 |
| **Dyddiad Cyfweliad:** | Dydd Iau, 2 Gorffennaf 2026 |

## Y Coleg – amdanom ni

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog. Er mwyn darganfod mwy am y Coleg ewch i: www.colegcymraeg.ac.uk a dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

## Y swydd

Mae hwn yn gyfle cyffrous i unigolyn sydd am ddatblygu ei sgiliau proffesiynol wrth weithio a hyfforddi gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd yr unigolyn yn cwblhau prentisiaeth 18 mis Lefel 3 mewn Marchnata Digidol, gan ennill profiad ymarferol a chymhwyster cydnabyddedig.

Ry'n ni'n chwilio am unigolyn brwdfrydig a chreadigol sydd yn awyddus i ddatblygu sgiliau a phrofiadau yn y diwydiant cyfathrebu, marchnata a chyfryngau cymdeithasol gan weithio mewn sefydliad blaenllaw sy'n gweithredu'n llwyr drwy'r Gymraeg. Bydd disgwyl i bob elfen o'r gwaith - ar lafar ac yn ysgrifenedig - cael ei gwblhau yn y Gymraeg.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) yn chwilio am unigolyn i ymgymryd â rôl Prentis Marchnata Digidol i:

- Gynorthwyo gyda chreu ymgyrchoedd cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo prosiectau a digwyddiadau'r Coleg.
- Cyfrannu at ddatblygu syniadau a chreu cynnwys digidol creadigol ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol y Coleg ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Cynorthwyo gyda threfnu digwyddiadau corfforaethol y Coleg.
- Cyfrannu at egwyddorion ac amcanion cyffredinol y Coleg

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg.

Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy’n agored i bawb ac i ddatblygu gweithlu dwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg ei hun.

Os wyt ti eisiau chwarae rhan yn y gwaith pwysig o hyrwyddo gwaith y Coleg i'n cynulleidfaoedd amrywiol – ymgeisia am y rôl hon!

* **Ni all ymgeiswyr sy'n dymuno cael eu hystyried fod â chymhwyster tebyg o fewn yr un pwnc nac ychwaith ymgymryd ag unrhyw gymhwyster arall a ariennir gan y Llywodraeth.**

## Buddion gwneud prentisiaeth gyda’r Coleg Cymraeg

- Awyrgylch Cymraeg yn y gweithle
- Cyfle i ti fod yn rhan o Gynllun Pensiwn USS
- 28 diwrnod o wyliau , yn ogystal ag 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus
- Cynllun oriau hyblyg
- Cynllun gweithio hybrid
- Ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu yn broffesiynol ac yn bersonol

## Gwneud Cais

Dylid cyflwyno ceisiadau trwy gwblhau’r ffurflen gais a’r ffurflen fonitro cyfle cyfartal sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Coleg (Swyddi | Coleg

Cymraeg Cenedlaethol). Ni fydd ceisiadau trwy CV yn dderbyniol. Dylid cyfeirio pob cais at Adnoddau Dynol drwy e-bost at adnoddaudynol@colegcymraeg.ac.uk a rhaid i bob cais gyrraedd **erbyn 12:00 ar 22 Mehefin 2026.**

Gwahoddir y sawl sydd am gael gwybodaeth bellach am y brentisiaeth i gysylltu â Nadine Kurton drwy e-bostio n.kurton@colegcymraeg.ac.uk

## Cyfweliadau

Bwriedir cynnal cyfweliadau yn swyddfa'r Coleg yng Nghaerfyrddin ar ddydd Iau, 2 Gorffennaf 2026.

Nid yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd o iaith (heblaw lle mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swydd) neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif.

Mai 2026

## Swydd ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Prentis Marchnata Digidol - Lefel 3 |
| **Ystod Gyflog:** | Cyflog Byw Gwirioneddol - £13.45 yr awr - £19,583 y flwyddyn |
| **Lleoliad:** | Caerfyrddin neu Caerdydd- cynllun gweithio hybrid mewn lle |
| **Statws Cyflogaeth:** | 4 diwrnod yr wythnos (28 awr) am gyfnod penodol o 18 mis |
| **Amser ar gyfer hyfforddiant gyda'r darparwr** | Bydd cyfartaledd oddeutu 3.5 awr yr wythnos yn cael ei neilltuo i'r prentis fynychu hyfforddiant gan y darparwr prentisiaeth, ACT, neu i gwblhau gwaith cwrs y prentisiaeth. |
| **Atebol i:** | Swyddog Cyfathrebu |
| **Staff â chyfrifoldeb uniongyrchol amdanynt:** | 0 |

## Nod Cyffredinol y Swydd

- Cynorthwyo gyda chreu ymgyrchoedd cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo prosiectau a digwyddiadau'r Coleg.
- Cyfrannu at ddatblygu syniadau a chreu cynnwys digidol creadigol ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol y Coleg ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Cynorthwyo gyda threfnu digwyddiadau corfforaethol y Coleg.
- Cyfrannu at egwyddorion ac amcanion cyffredinol y Coleg

## Prif Ddyletswyddau

1. **Cynorthwyo gyda chreu ymgyrchoedd cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo prosiectau a digwyddiadau'r Coleg.**

- Cynnig a datblygu syniadau creadigol i hyrwyddo prosiectau'r Coleg ar y cyfryngau cymdeithasol i ddenu sylw sydd yn adlewyrchu llais a brand y Coleg.
- Deall ac adnabod cynulleidfaoedd amrywiol y Coleg er mwyn sicrhau bod yr ymgyrchoedd yn berthnasol ac yn effeithiol.
- Creu a chadw amserlen o'r ymgyrchoedd a mesur eu heffeithiolrwydd.
- Meithrin cysylltiadau proffesiynol â chydweithwyr
- Cyfathrebu'n effeithiol ar lafar a dros e-bost
- Dilyn cyfarwyddiadau gan y rheolwr llinell

2. **Cyfrannu at ddatblygu syniadau a chreu cynnwys digidol creadigol ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol y Coleg ar y cyfryngau cymdeithasol.**

- Creu cynnwys digidol amrywiol cyfredol a chreadigol (ar ffurf fideo ac asedau graffeg) ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio meddalwedd dylunio a fideo/golygu.
- Teilwra ac addasu tôn y cynnwys digidol ar gyfer platfformau a chynulleidfaoedd amrywiol.
- Drafftio capsiynau ysgrifenedig ar gyfer postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, a theilwra'r neges i'r gynulleidfa.
- Postio ac amserlenni cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol o dan oruchwyliaeth y Swyddog Cyfathrebu.
- Deall anghenion y gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys LinkedIn, Facebook, Instagram a Tik Tok er mwyn creu cynnwys effeithiol ac addas ar eu cyfer.

3. **Cynorthwyo gyda threfnu digwyddiadau corfforaethol y Coleg.**

- Cefnogi Swyddog Cyfathrebu'r Coleg i gynllunio, trefnu a chydlynu rhai o brif ddigwyddiadau corfforaethol y Coleg,
- Bod yn bresennol a chefnogi yn nigwyddiadau amrywiol y Coleg (e.e Noson Wobrau'r Coleg, Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Genedlaethol) a chasglu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.

4. **Cyfrannu at egwyddorion ac amcanion cyffredinol y Coleg**

- Cynrychioli'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ôl y galw.
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill i'w cytuno gyda'r Rheolwr Llinell.

## Manyleb Person

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar y medrau, y sgiliau, y galluoedd a'r wybodaeth a ganlyn er mwyn cyflawni'r swydd yn effeithiol.

| Meini Prawf | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| **Addysg a hyfforddiant** | TGAU lefel A*-C mewn Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith a Mathemateg neu cymhwyster cyfatebol cydnabyddedig | | X |
| **Profiad** | Yn gyfarwydd â defnyddio platfformau amrywiol cyfryngau cymdeithasol at bwrpas personol neu broffesiynol | X | |
| | Yn gyfarwydd â chreu cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol (fideos a postiadau graffeg) at bwrpas personol neu broffesiynol | | X |
| | Ymwybyddiaeth o ddatblygiadau cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys 'trends' poblogaidd | | X |
| **Sgiliau gwaith** | Y gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gywir ac yn hyderus | X | |
| | Y gallu i gydweithio'n agos ac yn gydweithredol gydag aelodau'r tîm a chydweithwyr eraill. | | X |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn drefnus ac yn barod i weithio i derfynau amser tynn | X | |
| | Sgiliau cyfrifiadurol da gan gynnwys pecyn Microsoft 365 a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol | | X |
| | Profiad o ddefnyddio meddalwedd creu/golygu fideos megis Canva, Capcut, Inshot, neu raglenni tebyg. | | X |
| **Nodweddion a sgiliau personol** | Yn dilyn cyfarwyddyd a chanllawiau a'r gallu i weithio yn annibynnol yn ôl yr angen | X | |
| | Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig effeithiol | X | |
| | Sgiliau rhyngbersonol da | X | |
| | Brwdfrydig, llawn cymhelliant ac awydd i ddysgu | X | |
| | Gwybodaeth am waith amrywiol y Coleg Cymraeg. | | X |
| **Gofynion eraill** | Y parodrwydd i deithio i wahanol leoliadau yng Nghymru ar gyfer rhai o ddigwyddiadau'r Coleg | X | |
| | Bydd gofyn fod gennych gyswllt rhyngrwyd addas er | X | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mwyn gweithio o adref fel rhan o'r dull gweithio hybrid | | |

# Amodau'r Penodiad

Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i’r amodau canlynol:

1. Mae’r penodiad yn ddarostyngedig i drefniadau Adnoddau Dynol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

3. Penodir ar gyflog Byw Gwirioneddol.

4. Bydd eich cytundeb cyflogaeth yn gytundeb rhan amser, 4 diwrnod yr wythnos, am gyfnod penodol o 18 mis.

5. Bydd eich cytundeb cyflogaeth yn nodi 28 awr wedi eu contractio bob wythnos.

6. Pennir yr oriau gwaith arferol drwy drefniant â’r rheolwr llinell. Bydd disgwyl, ar adegau, i’r sawl a benodir i weithio y tu allan i’r oriau arferol, lle y bo ymrwymiadau gwaith yn galw am hynny.

6. Bydd hawl i 28 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ogystal ag 8 diwrnod o wyliau statudol a 4 diwrnod o wyliau neilltuol . Mae’r flwyddyn wyliau o 1 Medi i 31 Awst yn gynwysedig. Rhaid cymryd gwyliau blynyddol ar adegau y cytunir arnynt gan y rheolwr llinell.

7. Bydd deiliad y swydd hon yn gymwys ar gyfer Polisi Oriau Hyblyg y Coleg.

8. Bydd deiliad y swydd yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS).

9. Ni chaiff y sawl a benodir ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth neu benodiad arall sy'n galw am gryn dipyn o'i (h)amser neu ei (h)egni heb ganiatâd Prif Weithredwr y Coleg.

10. Bydd y penodiad yn ddarostyngedig i brawf o’r cymwysterau addysgol a restrir ar y ffurflen gais ynghyd a geirda derbyniol gan y canolwyr a enwir ar y ffurflen gais.

11. Bydd cyfnod prawf o bum mis pryd bydd cyfnod rhybudd o 2 wythnos yn weithredol.

12. Yn dilyn cyfnod prawf llwyddiannus, gellir terfynu'r cytundeb drwy roi rhybudd ysgrifenedig yn unol â’r cytundeb cyflogaeth.

Mai 2026